

# Cyngor Sir Fynwy

## Trwyddedu cysylltiedig ag anifeiliaid

Fel yr Awdurdod Trwyddedu ar gyfer Sir Fynwy, rydym yn gyfrifol am gyhoeddi amrywiaeth o drwyddedau anifeiliaid i sicrhau fod sefydliadau a pherchnogion yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol.

### Mae gan ein Swyddogion Trwyddedu Anifeiliaid gyfrifoldeb i:

- roi cyngor am agweddau o drwyddedu anifeiliaid
- archwilio a rhoi trwyddedau i safleoedd sy'n ddarostyngedig i ddeddfwriaeth anifeiliaid tebyg i sefydliadu bridio cŵn, cenelau byrddio cŵn, cathfeydd, sefydliadau marchogaeth ac eraill
- ymchwilio cwynion am iechyd a diogelwch anifeiliaid yn y safleoedd hyn
- ymchwilio cwynion am weithgareddau anghyfreithlon a chymryd camau ffurfiol yn erbyn troseddwyrr lle mae gweithredu arall yn aflwyddiannus

### Mae angen trwyddedau ar gyfer:

- sefydliadau bridio cŵn
- cenelau byrddio cŵn
- cadw anifeiliaid peryglus/gwyllt
- cathfeydd
- siopau anifeiliaid anwes
- cyfleusterau byrddio cartref/gofal dydd
- sefydliadau marchogaeth

Mae'n rhaid i chi gael trwydded cyn gweithredu unrhyw rai o'r gweithgareddau uchod.

### Pwy sydd angen trwydded bridio cŵn?

Mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) Cymru 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un sy'n bridio mwy na dau dorraid o gŵn bach mewn cyfnod o 12-mis i gael trwydded.

Mae'r rheoliadau'n dweud fod angen trwydded bridio cŵn lle mae person yn

cadw mwy na 2 ast sy'n bridio, ac yn bridio mwy na 2 dorraid mewn unrhyw gyfnod o 12 mis, neu yn hysbysebu mwy na 2 dorraid ar werth mewn unrhyw gyfnod o 12-mis; neu yn cyflenwi cŵn bach a gafodd eu geni o fwy na 2 dorraid, neu yn hysbysebu busnes bridio neu werthu cŵn bach.

Rhaid cael trwydded cyn i berson weithredu sefydliad bridio.

Mae person sy'n euog o drosedd dan y rheoliad hwn yn agored ar euogfarn ddiannod i garchariad am dymor heb fod yn fwy na chwe mis mewn carchar, dirwy heb fod yn fwy na lefel 5 (£5000) ar y raddfa safonol, neu'r ddau.

## Gwneud cais am drwydded bridio cŵn

Mae trwyddedau yn ddilys am 12 mis a rhaid eu hadnewyddu cyn y dyddiad y maent yn dod i ben.

Mae ffi yn daladwy (gweler ffioedd cyfredol trwyddedau anifeiliaid).

Gellir cyhoeddi trwydded os nad yw'r ymgeisydd wedi ei wahardd rhag:

- cadw sefydliad bridio cŵn
- cadw siop anifeiliaid anwes
- cadw ci
- cadw sefydliad anifeiliaid
- bod yng ngwarchodaeth anifeiliaid

## Amodau

Cyn y rhoddir trwydded bydd angen i'r ymgeisydd gyflwyno rhaglen ysgrifenedig Gwella a Chyfoethogi a Rhaglen Gymdeithasau. Caiff y safle ei archwilio gan arolygydd milfeddygol a awdurdodir gan Gyngor Sir Fynwy, gyda'r ymgeisydd yn talu'r gost.

Caiff archwiliad blynyddol wedyn ei wneud gan Swyddog Trwyddedu Anifeiliaid yr Awdurdod.

Yn ystod yr archwiliad mae'n rhaid i'r ymgeisydd fedru dangos:

- y caiff cŵn eu cadw mewn llety addas yng nghyswllt adeiladwaith, maint yr ardal y caiff anifeiliaid eu cadw ynddi, nifer fydd yn yr ardal, cyfleusterau ymarfer, tymheredd, goleuo, awyru a glanweithdra
- y caiff cŵn fwyd, diod a deunydd gwely, ymarfer digonol ac yr ymwelir â nhw ar gyfnodau addas
- y cymerir mesurau rhesymol i atal a rheoli lledaeniad clefydau heintus, yn cynnwys darparu cyfleusterau ynysu
- y cymerir camau i ddiogelu cŵn pe byddai tân neu argyfwng arall, yn cynnwys darparu offer addas a digonol ar gyfer ymladd tân
- y cymerir camau i sicrhau y caiff cŵn fwyd, diod a deunydd gwely addas a'u hymarfer yn ddigonol pan gânt eu cludo i neu o'r sefydliad bridio
- na chaiff ast ei pharu os yw'n iau nag un mlwydd oed
- nad yw ast yn rhoi genedigaeth i fwy na chwech torraid o gŵn bach
- nad yw ast yn rhoi genedigaeth i gŵn bach cyn diwedd cyfnod o ddeuddeg mis gan ddechrau gyda'r diwrnod y tro diwethaf iddynt roi genedigaeth i gŵn bach
- y cedwir cofnodion bridio cywir yn y safle mewn dull a ragnodwyd gan reoliadau
- y cydymffurfir â'r isafswm cymhareb staffio.

## Sut i wneud cais

I wneud cais, cysylltwch â ni dros y ffôn neu drwy e-bost a byddwn yn anfon pecyn cais atoch.

Ffôn: 01873 735420

E-bost: [animalhealth@monmouthshire.gov.uk](mailto:animalhealth@monmouthshire.gov.uk)

## Apelio

Os gwrthodir trwydded gellir apelio i'r llys ynadon a all roi cyfarwyddiadau am y drwydded neu ei hamodau.

Cysylltwch â thîm Iechyd Anifeiliaid Cyngor Sir Fynwy i gael mwy o wybodaeth.

Os oes gennych unrhyw bryderon llesiant ar gyfer anifeiliaid mewn sefydliad bridio neu'n credu fod person yn bridio heb drwydded, cysylltwch â ni'n uniongyrchol os gwelwch yn dda.